

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Wardiau Tenby, Newton a Phenarth,
Clinig Caswell, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 11, 12 a 13 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yng Nghlinig Caswell, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 11, 12 a 13 Medi 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Tenby - ward asesu a thrin ag 14 o welyau i ddynion
- Ward Newton - ward derbyn, adsefydlu a gwella ag 11 o welyau i fenywod
- Ward Penarth - Uned Gofal Dwys Seiciatrig ag wyth gwely i ddynion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur gan gleifion. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Nid oedd digon o holiaduron wedi'u cwblhau gan y staff i adrodd arnynt, fodd bynnag, gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth rhyngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Dywedodd y cleifion wrthym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â dewisiadau bwydlen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwelliannau i ddewisiadau bwydlen
- Mynediad gwell i ddyfeisiau electronig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd y cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, i reoli heintiau ac iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn ddiogel.

Roedd yn ymddangos bod y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom nodi safon dda o gynllunio gofal a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn, yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle'r oedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys ac roedd tystiolaeth glir wedi'i dogfennu bod y cleifion yn cael eu cynnwys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ailaddurno'r wardiau a'r ardaloedd cymunedol
- Adolygiad o larymau personol staff a lleoliad mannau larymau presennol
- Mae angen gwella prosesau ymateb yr adran ystadau i faterion amgylcheddol
- Dylid trwsio'r peiriannau sychu dillad a sicrhau eu bod ar gael i'r cleifion eu defnyddio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Trefniadau cynllunio gofal o safon dda
- Sgiliau llonyddu'r staff wrth reoli ymddygiadau cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran cyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon ac roedd y Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gael i'r staff. Mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisiau a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau polisiau
- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Dylai'r cyfarfodydd staff a chleifion gael eu cofnodi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîm llawn cymhelliant sy'n canolbwyntio ar y cleifion
- Roedd y tîm o staff yn gydlynol ac yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad roeddent yn eu cael gan reolwyr y ward.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom bedwar ymateb i'r holiaduron; mae angen cadw'r nifer bach hwn mewn cof wrth ystyried yr ymatebion hyn.

Gwnaethom hefyd adolygu'r arolygon adborth mewnol gan gleifion i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn eu trin yn dda a'u bod yn garedig wrthynt.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Yr ysbyty gorau i mi fod ynddo erioed."
"Mae'r staff yn wych".*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r bwyd yn ddiflas ac mae angen newid y fwydlen".
"Dim digon i'w wneud".*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd gan Glinig Caswell amrywiaeth o gyfleusterau i helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau a gallai'r cleifion a oedd wedi cael awdurdod i adael yr ysbyty fynd allan i'r gymuned yn rheolaidd.

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwnaethom nodi bod yr holl gyflogeion, staff wardiau, uwch-reolwyr, a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i ymdrin ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi, gan ddangos agwedd ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, aeth sawl claf at y tîm arolygu i ganmol y staff a dweud eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty. Gwelodd y tîm arolygu y staff yn defnyddio sgiliau llonyddu da gyda'r cleifion hefyd a nodwyd bod hwn yn faes arfer da yn ystod yr arolygiad.

Roedd gan y cleifion ystafelloedd gwely en-suite a oedd yn rhoi safon dda o breifatrwydd ac urddas. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagog o hyd pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn. Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn perthynas â phob eitem bersonol er mwyn sicrhau diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau a theulu pe bai angen, ac roedd dyfeisiau digidol ar gael i'r cleifion eu defnyddio gyda chymorth y staff pan fo angen. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion wrthym fod y dyfeisiau electronig wedi cael eu tynnu o'r wardiau i gael eu trwsio ac nad oeddent wedi'u dychwelyd ers misoedd.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y dyfeisiau electronig eu trwsio ar unwaith a'u dychwelyd i'r wardiau i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd panel gweld ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb agor y drws er mwyn osgoi amharu ar y cleifion wrth iddynt gysgu. Yn ystod ein taith o gwmpas yr ysbyty, roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli gweld yn cael eu cadw ar gau oni bai eu bod yn cael eu defnyddio er mwyn amddiffyn preifatrwydd y cleifion wrth i bobl fynd heibio'r ystafelloedd.

Gwnaethom holi a oedd cyfleoedd i'r cleifion ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored ar gyfer amser therapiwtig. Roedd yr ardd yn llawn tyfiant, ac roedd llawer o chwyn ac eitemau o hen ddodrefn ag ôl traul arnynt. Hefyd, roedd yr iard ar Ward Penarth yn anwastad ac roedd y fflagiau ar y llawr yn rhydd, a allai beri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion. Roedd coed a llwyni a oedd wedi gordyfu hefyd yn peri risg i ddiogelwch y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym yn ystod yr arolygiad fod sawl man dall yn y gerddi o amgylch Clinig Caswell a oedd yn peri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i wella edrychiad a diogelwch yr ardd er mwyn i'r cleifion ei defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad llawn o dir yr ysbyty o amgylch y wardiau er mwyn nodi mannau dall ac ardaloedd sy'n peri risg i ddiogelwch y cleifion a'r staff. Rhaid i'r adran ystadau ymateb i'r materion a godwyd mewn modd amserol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos ar y ward i'r cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod posterï yn arddangos gwybodaeth am wasanaethau eirioli a sut y gallai'r cleifion roi adborth ar y gofal roeddent yn ei gael ar y wardiau.

Roedd bwrdd cipolwg ar statws cleifion yn y swyddfeydd nyrsio. Roedd y byrddau yn cael eu cadw allan o olwg y cleifion a oedd yn helpu i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar y naill ward na'r llall am rôl AGIC a sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am AGIC a'i manylion cyswllt yn cael eu harddangos ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd ward cleifion yn cael eu cynnal, fodd bynnag, gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad nad oedd oeddent yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd cleifion yn cael eu cofnodi.

Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn

O safbwynt cynllunio gofal ac arferion yn yr ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny).

Roedd y cleifion yn cymryd rhan lawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o

gyfranogiad amlddisgyblaethol yng nghynlluniau gofal y cleifion a oedd yn helpu'r ysbyty i roi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Amserol

Gofal Amserol

At ei gilydd, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal amserol yn ystod eu hamser ar y ward. Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n brydlon wrth eu derbyn a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd amserol pan ofynnwyd iddynt.

Roedd y ward yn cynnal cyfarfodydd sgrym diogelwch dyddiol a oedd yn cadarnhau'r lefelau defnydd gwelyau, lefelau arsylwi a staffio ac unrhyw faterion cleifion a oedd yn dod i'r amlwg yn ddigonol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol. Roedd hi'n amlwg bod y staff a'r cleifion yn parchu ei gilydd a bod diogelwch perthynol cryf rhyngddynt.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael help gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, caiff eu teuluoedd a'u gofawyr eu cynnwys mewn cyfarfodydd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a gweld bod y ddogfennaeth a oedd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth ar waith yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn

yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hybu a'u diogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob un o'r cleifion, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Dywedwyd wrthym nad oedd y staff yn gwisgo larymau personol a'u bod yn dibynnu ar y mannau seinio larwm ar waliau'r ysbyty. Nid oedd polisi ar waith i nodi pam nad oedd y staff yn defnyddio larymau personol.

Er bod clychau seinio larwm wal ar gael, roedd angen adolygu lleoliad a phriodoldeb y rhain ar gyfer lleoliad diogelwch canolig, oherwydd gallai'r safleoedd presennol beri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiad llawn yn cael ei gynnal o briodoldeb y system larwm bresennol a sicrhau bod y polisi larwm yn cael ei ddiweddarau.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau a gynhelir gan reolwr y ward ar bob ward.

Edrychodd aelodau'r tîm arolygu ar amgylchedd yr ysbyty wrth iddynt gael eu tywys o amgylch yr ysbyty ar noson gyntaf yr arolygiad ac yn ystod diwrnodau eraill yr arolygiad. Roedd y ward yn edrych yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi sawl mater o ran addurno a'r amgylchedd yr oedd angen talu sylw iddynt:

- Teils ar goll yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol ar Wardiau Newton a Phenarth
- Toiled wedi torri yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar Ward Tenby
- Llwydni a phaent yn plicio yn yr holl ardaloedd cymunedol a'r ardaloedd i'r cleifion
- Dŵr yn gollwng yn yr ardal gymunedol ar Ward Penarth
- Lloriau gwael yn yr ardaloedd cymunedol ar Ward Tenby
- Drws tân ar Ward Tenby
- System ddraenio wael yng nghawodydd y cleifion
- Mae angen adolygu'r profion PAT ar y tair ward.

Hefyd, dywedodd y staff wrthym nad oedd yr adran ystadau yn ymateb mewn modd prydlon ac amserol pan oedd materion amgylcheddol yn cael eu codi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol uchod a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.

Roedd y tymheredd amgylchol ar y tair ward a arolygwyd gennym yn anghyfforddus o boeth drwy gydol ein hymweliad a nododd y staff bod hyn yn broblem barhaus.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu ac ystyried systemau a fyddai'n gwneud y tymheredd yn ardaloedd y wardiau yn fwy cyfforddus i'r staff a'r cleifion.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty.

Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau rheoli heintiau.

Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol (PPE)

ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio lle y bo'n briodol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod PPE ar gael yn rhwydd bob amser. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo digonol ar gael.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel bod y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth gan y staff yn seiliedig ar anghenion unigol. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau sychu dillad yn torri'n aml ac nad oeddent ar gael i'r cleifion eu defnyddio. Nid oedd y peiriannau sychu dillad yn gweithio'n iawn yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y peiriannau sychu dillad yn cael eu trwsio neu fod rhai newydd yn cael eu gosod yn eu lle i'r cleifion eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y wardiau yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y gwaith o reoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cloi. Roedd tystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell meddyginiaethau er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Roedd y fferyllfa'n rhoi mewnbwn rheolaidd ac roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn cynorthwyo'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth ar y ward.

Roedd trefniadau ar waith ar y ward i storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal ddwywaith y dydd a bod llofnodion gan nyrsys yn cadarnhau bod y gwiriadau wedi'u cynnal.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd o gyfarpar dadebru. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Ymddygiad heriol

Disgrifiwyd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio a lle bo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn achosi pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu. Cadarnhaodd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r tîm arolygu fod y data ar atal yn gorfforol yn isel. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn defnyddio sgiliau llonyddu effeithiol gyda'r cleifion ac roedd yn amlwg bod y staff yn fedrus iawn yn y maes hwn.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rhoi gwybod am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX).

Roedd hierarchaeth ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu yn amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu llunio a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid adolygu a dadansoddi faint o ddigwyddiadau oedd yn codi. Roedd trefniadau ar waith i rannu

gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn ffeiliau papur gan fwyaf a oedd yn cael eu storio a'u cadw dan glo yn swyddfa'r nyrsys, gyda rhywfaint o ddogfennaeth electronig a oedd yn cael ei diogelu gan gyfrinair.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym y byddai'n well gan y staff newid i ddefnyddio ffeiliau electronig.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Cynllunio a Darparu Gofal, Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yr adroddiad hwn.

Maeth a hydradu

Roedd y cleifion yn cael prydau bwyd ar y ward, gan ddewis o fwydlen yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod gofynion deietegol penodol yn cael eu bodloni. Roedd yr ystafelloedd bwyta'n lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn fodlon ar y dewisiadau bwydlen a oedd ar gael yng Nghlinig Caswell ac y byddai'n well ganddynt gael dewis bwydlen mwy amrywiol.

Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno dewis bwydlen mwy amrywiol ar gyfer y cleifion.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio gofal a darpariaeth

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf yn yr ysbyty.

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Nodwyd bod absenoldeb Adran 17 sawl claf wedi'i ganslo, yn hytrach na'r ffaith nad yw'n ddilys bellach. Mae'r codau ymarfer yn dweud y dylid stampio'r cofnod i ddangos nad yw'n ddilys bellach. Hefyd, roedd dyddiad y cyfweliad rhwng yr Ymgynghorydd Cofrestredig a'r claf yn anghywir mewn un ddogfen adnewyddu a welsom.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod absenoldeb Adran 17 wedi'i stampio'n gywir a bod dogfennau adnewyddu'n cael eu gwirio a'u bod yn gywir.

Roedd angen diweddaru'r rhestr o gyfreithwyr tribiwnlys ar Wardiau Newton a Phenarth. Hefyd, nid oedd Codau Ymarfer ar gael i'r cleifion ar Wardiau Tenby a Phenarth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rhestr o gyfreithwyr tribiwnlys yn cael ei diweddaru a bod gan bob ward gopi o'r codau ymarfer.

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal pum claf a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda.

Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cynlluniau gofal yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal; roedd hyn yn helpu i gefnogi'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Gwelodd y tîm arolygu achosion cadarnhaol o ailgyfeirio a thawelu ymddygiadau anodd. Roedd yr achosion hyn yn cael eu trin mewn ffordd gefnogol iawn, llawn parch.

Gwelsom fod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys tystiolaeth o lais y cleifion i

adlewyrchu eu safbwyntiau. Nododd y tîm arolygu bod y ddogfennaeth cynllunio gofal yn faes arfer da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shift nos.

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, roeddent yn gwbl ymwybodol o'r systemau ar alw sydd ar waith yn yr ysbyty.

Roedd prosesau gweithredu'r ysbyty yn cael eu hategu gan drefniadau llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Drwy'r arolygiad, gwnaeth yr holl staff sicrhau eu bod ar gael i siarad â thîm arolygu AGIC a gwnaethant gymryd rhan mewn modd cadarnhaol iawn yn y broses.

Yn ystod ein cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad, gwnaeth uwch aelodau staff y wardiau a'r rheolwyr ysbytai dderbyn ein sylwadau. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad.

Y gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Siaradodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn frwdfrydig am eu rolau. Gwelsom waith tîm cryf drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith yn yr ysbyty.

Darparwyd amrywiaeth o bolisïau i ni, y cafodd y mwyafrif ohonynt eu diweddarau, ond canfuwyd bod y polisïau canlynol wedi dyddio:

- Polisi larwm - dyddiad adolygu mis Awst 2022

- Polisi arwahanu - dyddiad adolygu mis Gorffennaf 2023
- Polisi cydsynio - dyddiad adolygu mis Gorffennaf 2023
- Gweithdrefn weithredol a rôl a swyddogaeth y ward - dyddiad adolygu mis Hydref 2022.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisïau eu hadolygu a'u diweddarau.

Gwelsom fod nifer o swyddi gwag yn yr ysbyty yr oedd y bwrdd iechyd yn ceisio eu llenwi. Cyflenwyd y bylchau mewn staff gan staff banc neu asiantaeth a oedd yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion fel rheol. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi recriwtio rhai nyrsys o dramor ac y disgwylir i garfan o fyfyrwyr ddechrau'n fuan. Trafodir materion staffio ac adnoddau yn y sgrym diogelwch dyddiol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staffio'r wardiau'n cael eu cynnal, fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd i ni eu gweld yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd staffio yn cael eu cofnodi.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff, a chafodd restr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant a ddarparwyd i ni ar yr arolygiad yn nodi bod y ffigurau cydymffurfiaeth dros 90 y cant ar y cyfan.

Roedd strategaeth hyfforddiant newydd ar gyfer atal yn gorfforol ar fin cael ei rhoi ar waith a'i chyflwyno i'r staff. Roedd hyn wedi effeithio ar rai ystadegau hyfforddiant. Cawsom sicrhau gan y pennaeth nyrsio bod prosesau craffu cadarn ar rotâu i sicrhau bod staff sydd wedi cael hyfforddiant digonol yn gweithio ar y wardiau. Hefyd, roedd y data ar atal yn gorfforol yn isel ac yn cael eu monitro'n barhaus.

Gwelsom fod gwybodaeth wedi cael ei darparu i'r staff am ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd newydd. Hefyd, dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon ac roedd y Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gael i'r staff.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn y wardiau.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth ymhlith y staff, sef 86 y cant.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn galonogol gweld nifer y prosiectau ymchwil a'r gwelliannau ansawdd sydd ar waith yng Nghlinig Caswell ar hyn o bryd. Roedd llawer o enghreifftiau o gydweithio â byrddau iechyd lleol eraill ar brosiectau gwella fel y Rhaglen Trawsnewid Fforensig.

Gwelsom ddogfennaeth sy'n dangos bod y cyfarwyddwr nyrsio wedi cynnal adolygiadau arolygu dirybudd a oedd yn cysylltu â Chynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn helpu i nodi ble roedd angen gwneud gwelliannau. Roedd y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau y byddai canfyddiadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd ac y byddai camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.

Dywedwyd wrthym hefyd fod sesiynau holi ac ateb wedi'u trefnu rhwng staff y ward ac uwch-reolwyr, fodd bynnag, nid oedd y sesiynau hyn wedi bod yn cael eu cynnal mor aml â'r bwriad. Dywedwyd wrthym fod yr uwch-reolwyr yn gobeithio ailgyflwyno'r sesiynau hyn am eu bod yn fuddiol i'r staff.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y staff yn gallu disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â phartneriaid i ddarparu gofal cleifion a chyflwyno datblygiadau. Dywedwyd wrthym eu bod yn ymgysylltu ag asiantaethau partner allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol, meddygon teulu, tai a gwasanaethau iechyd cymunedol er mwyn sicrhau dull systemau cyfan o ddarparu gofal cleifion.

Dywedwyd wrthym fod yr uwch-staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd ag asiantaethau i drafod materion a meithrin cydberthnasau gwaith cadarn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

--	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig Caswell

Dyddiad yr arolygiad: 11 - 13 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Caswell

Dyddiad yr arolygiad: 11 - 13 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oes dyfeisiau electronig ar gael i'r cleifion.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y dyfeisiau electronig yn cael eu trwsio ar unwaith a'u dychwelyd i'r wardiau i'r cleifion eu defnyddio.	Cael dyfeisiau electronig gan y Gwasanaethau Digidol a'u dosbarthu i'r wardiau i'r cleifion eu defnyddio.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Cwblhawyd Tachwedd 23
2. Roedd y gerddi wedi gordyfu ac yn peri risg i ddiogelwch y cleifion.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i wella edrychiad a diogelwch yr ardd er mwyn i'r cleifion ei defnyddio.	Ailedrych ar asesiad risg y gwasanaeth o ardaloedd awyr agored a chydweithio â'r adrannau cyfleusterau ac ystadau i dargedu ardaloedd â blaenoriaeth.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Technegol, Cyfleusterau BIPCTM	Rhagfyr 23
3. Nododd y staff fod sawl man dall yn y gerddi sy'n peri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd gynnal adolygiad llawn o dir yr ysbyty o amgylch y wardiau er mwyn nodi mannau dall ac ardaloedd sy'n peri risg i ddiogelwch y cleifion a'r staff.	Fel uchod, ailedrych ar yr asesiad risg a chydweithio â'r adran cyfleusterau i fynd i'r afael ag unrhyw fannau dall a	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Technegol,	Rhagfyr 23

		all beri risg i ddiogelwch y staff neu'r cleifion.	Cyfleusterau BIPCTM	
4. Dim gwybodaeth yn y clinig am rôl AGIC.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gwybodaeth am AGIC a'i manylion cyswllt yn cael eu harddangos ar y ward.	Posterï sy'n cynnwys gwybodaeth am rôl a diben AGIC i gael eu gosod ar y byrddau gwybodaeth yn yr holl wardiau.	Nyrs Arwain/Rheolwyr y Wardiau	Tachwedd 23
5. Dywedwyd wrth y tîm arolygu fod cyfarfodydd cleifion yn cael eu cynnal, ond ni roddwyd unrhyw gopïau o gofnodion i'r tîm.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cyfarfodydd cleifion yn cael eu cofnodi.	Enwebu unigolion i gadw cofnodion mewn cyfarfodydd cleifion.	Nyrs Arwain/Rheolwyr y Wardiau	I ddechrau ym mis Tachwedd 23
6. Nid oedd y staff yn gwisgo larymau personol a gallai safleoedd presennol y larymau wal beri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adolygiad llawn yn cael ei gynnal o briodoldeb y system larwm bresennol a sicrhau bod y polisi larwm yn cael ei ddiweddarau.	Ailedrych ar yr achos dros fuddsoddi mewn larymau personol i ymhelaethu ar risgiau llywodraethu clinigol y system bresennol a diweddarau'r asesiad risg. Y Grŵp Polisi i ddiweddarau'r Polisi Larymau Personol a'i uwchgyfeirio at Grŵp Adolygu Polisiâu Grŵp y Gwasanaeth.	Cydgysylltydd Risgiau	Ionawr 24

7. Gwnaethom nodi sawl mater addurnol ac amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt: • Mae angen gosod teils newydd yn lle'r rhai sydd ar goll yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol ar Wardiau Newton a Phenarth • Mae angen trwsio'r toiled yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar Ward Tenby • Mae angen ailaddurno'r ardaloedd cymunedol a'r ardaloedd i gleifion ar bob ward gan fod llwydni a phaent yn plicio • Mae angen gwneud gwaith trwsio i fynd i'r afael â'r dŵr sy'n gollwng yn yr ardal gymunedol ar Ward Penarth	Rhaid i'r Bwrdd lechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth i sicrhau bod yr adran ystadau yn blaenoriaethu'r gwaith o gwblhau'r diffygion amgylcheddol a nodwyd ar fyrder.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth ar y cyd â'r Rheolwr Ystadau, BIPCTM	Ionawr 24
--	---	---	--	------------------

• Mae angen gosod lloriau newydd yn yr ardaloedd cymunedol ar Ward Tenby • Mae angen trwsio'r drws tân ar Ward Tenby • Mae angen adolygu'r system ddraenio wael yng nghawodydd y cleifion • Mae angen adolygu'r profion PAT ar y tair ward. Dywedwyd wrthym hefyd fod oedi wrth aros i'r adran ystadau ddatrys y problemau amgylcheddol.				
8. Roedd y tymheredd amgylchol ar y tair ward a arolygwyd gennym yn anghyfforddus o boeth drwy	Rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ac ystyried systemau a fyddai'n gwneud y tymheredd yn	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth i sicrhau bod yr adran ystadau yn adolygu tymereddau'r	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth ar y cyd â'r Rheolwr Ystadau, BIPCTM	Tachwedd 23

gydol ein hymweliad a nododd y staff bod hyn yn broblem barhaus.	ardaloedd y wardiau yn fwy cyfforddus i'r staff a'r cleifion.	wardiau ac yn sefydlu system reoli briodol.		
9. Roedd y peiriannau sychu dillad wedi torri ac nid oeddent ar gael i'r cleifion eu defnyddio.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y peiriannau sychu dillad yn cael eu trwsio neu fod rhai newydd yn cael eu gosod yn eu lle i'r cleifion eu defnyddio.	Adolygu statws y peiriannau sychu dillad a chysylltu â'r darparwr i drefnu gwaith atgyweirio angenrheidiol.	Pennaeth Gweinyddol/Cadw Tŷ	Rhagfyr 23
10. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn fodlon ar y dewisiadau bwydlen a oedd ar gael yng Nghlinig Caswell ac y byddai'n well ganddynt gael dewis bwydlen mwy amrywiol.	Dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno dewis bwydlen mwy amrywiol ar gyfer y cleifion.	Ailedrych ar y gwaith a ddechreuwyd i adolygu'r dewisiadau prydau bwyd i gleifion a gwneud addasiadau yn unol â hynny.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Ionawr 24
11. Roedd adolygiad o gofnod absenoldeb Adran 17 un claf wedi'i stampio i nodi ei fod wedi'i ganslo.	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod absenoldeb Adran 17 wedi'i stampio'n gywir.	Mae stampiau newydd sy'n cynnwys y derminoleg briodol "No Longer Valid" wedi'u harchebu ac mae gohebiaeth wedi'i rhannu drwy bob rhan o'r clinig.	Y Pennaeth Nyrsio ar y cyd â'r Pennaeth Nyrsio ar gyfer Ansawdd a Llywodraethu	Tachwedd 23
12. Roedd dyddiad y cyfweliad rhwng yr Ymgynghorydd Cofrestredig a'r claf yn	Gwirio'r dogfennau adnewyddu a chadarnhau eu bod yn gywir.	Gohebiaeth i gael ei hanfon gan y Cyfarwyddwr Clinigol at yr holl Glinigwyr Cyfrifol i'w hatgoffa i sicrhau bod pob	Cyfarwyddwr Clinigol/Clinigwyr Cyfrifol	Tachwedd 23

anghywir mewn un ddogfen adnewyddu a welsom.		cofnod yn cael ei gofnodi'n gywir.		
13. Roedd angen diweddaru'r rhestr o gyfreithwyr tribiwnlys ar Wardiau Newton a Phenarth.	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y rhestr o gyfreithwyr tribiwnlys wedi'i diweddaru	Rhoi gwybodaeth newydd am gyfreithwyr tribiwnlys ar bob ward.	Rheolwyr y Wardiau	Tachwedd 23
14. Dim Codau Ymarfer ar gael i'r cleifion ar Wardiau Tenby a Phenarth.	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod copïau o'r Codau Ymarfer ar gael ar bob ward.	Gosod taflenni Codau Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl ar bob ward er mwyn sicrhau eu bod ar gael i bob claf.	Y Pennaeth Nyrsio/Rheolwyr y Wardiau	Tachwedd 23
15. Nid oedd y polisiâu canlynol yn gyfredol: • Polisi larwm - dyddiad adolygu mis Awst 2022 • Polisi arwahanu - dyddiad adolygu mis Gorffennaf 2023 • Polisi cydsynio - dyddiad adolygu mis Gorffennaf 2023 • Gweithdrefn weithredol a rôl a swyddogaeth y ward - dyddiad adolygu mis Hydref 2022.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiâu eu hadolygu a'u diweddaru.	Diweddaru'r holl bolisiau isadrannol sydd wedi dyddio/sydd wrthi'n cael eu hadolygu drwy'r Grŵp Adolygu Polisiâu isadrannol a'u huwchgyfeirio i'w cymeradwyo gan Grŵp Adolygu Polisiâu Grŵp y Gwasanaeth.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a'r Cydgysylltydd Diogelwch a Risg	Rhagfyr 23

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Janet Williams

Teitl swydd: Cyfarwyddwr y Gwasanaeth: Grŵp Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 02/11/2023